S4/C

Strategaeth Gaffael S4C
Dyddiad cyhoeddi: 28 Ionawr 2010

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Strategaeth hon yn egluro'r egwyddorion sy'n gysylltiedig â chaffael nwyddau a gwasanaethau yn S4C, a'r ffordd y mae hyn yn cefnogi'r nodau ac amcanion corfforaethol. Mae cyflawni rhagoriaeth yn berthnasol i weithrediad y Strategaeth.

1.2 Nod S4C yw sicrhau gwerth am arian trwy gydlynu gweithdrefnau caffael effeithiol a chadarn. Mae'r rhain yn rhan ganolog i gynnal busnes S4C ac mae dealltwriaeth o'u pwysigrwydd cyffredinol yn ofynnol i bob aelod o staff.

1.3 Mae'r Strategaeth yn adeiladu ar yr arfer da presennol ac yn ysgogi gwelliannau pellach yn ein gweithdrefnau caffael, er mwyn iddynt barhau i fod yn berthnasol i'r anghenion busnes. Rhaid rhoi ystyriaeth i gyflawni gwerth gorau, macsimeiddio costau effeithiol, a diogelu cynaladwyedd cyflenwyr. Nid ymarfer cost isaf yn unig ydyw.

1.4 Mae'r Strategaeth yn gweithio i gefnogi'r Swyddog Cyfrifo yn ei dyletswyddau a'i chyfrifoldebau, ac ar y cyd â Pholisi Masnachu Teg S4C, y Datganiad Polisi Caffael, Gweithdrefnau Ariannol S4C, Cod Ymarfer S4C ar gyfer Comisiynu Cynnwys a'r Polisi Rheoli Risg.

2. Caffael

2.1 Caffael yw'r broses gyfan sy'n ymwneud â chanfod, ymrwymo a rheoli'r gwariant ar nwyddau a gwasanaethau, ar draws ystod a gwerth cyfan y gweithgareddau a reolir gan S4C.

2.2 Mae ystod y nwyddau a'r gwasanaethau sy'n cael eu caffael gan S4C yn amrywiol. Yn ogystal â chynnwys clyweledol, mae'r elfennau sy'n cael eu caffael yn cynnwys gwasanaethau arlwyo a glanhau, cyflenwadau swyddfa, gwasanaethau argraffu, offer technegol a defnyddiau traul, offer TG a defnyddiau traul, hyfforddiant, gwasanaethau cyfathrebu a gwasanaethau adnoddau dynol.

2.3 Mae proses gaffael S4C yn cynnwys adnabod a diffinio cwmpas y gwariant, datblygu'r achos busnes ar gyfer y gwariant, diffinio'r dull neu'r ffordd o gaffael yr eitem neu'r gwasanaeth, gweithredu trefniadau caffael cystadleuol, dyfarnu a gweithredu'r cytundeb, rheoli'r cytundeb ac adolygu'r effaith ar wariant.

3. Strategaeth Gaffael S4C

3.1 Mae'r Strategaeth yn cael ei harwain gan yr egwyddorion canlynol:

- 3.1.1 Sicrhau tryloywder, atebolrwydd, cydraddoldeb, effeithlonrwydd ariannol, cysondeb, priodoldeb, effeithiolrwydd a phroffesiynoldeb;
- 3.1.2 Bod yr holl wariant yn berthnasol i'r busnes ac yn unol â blaenoriaethau strategol;
- 3.1.3 Bod arfer gorau yn cael ei weithredu ar draws popeth, gan leihau'r baich gweinyddol;
- 3.1.4 Bod amrywiaeth yn cael ei hyrwyddo a gwastraff yn cael ei gyfyngu.

3.2 Gyda'r nodau allweddol penodol canlynol:

- 3.2.1 Sicrhau gwerth am arian;
- 3.2.2 Gweithredu prosesau caffael effeithiol a chystadleuol sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol;
- 3.2.4 Partneriaeth effeithiol gyda chyflenwyr, gan sicrhau sail gyflenwi sy'n arloesol, gadarn a chynaliadwy;
- 3.2.5 Datblygu a gwerthfawrogi talent;
- 3.2.6 Rheoli prosiectau a risg yn effeithlon ar gyfer pob agwedd ar gaffael;
- 3.2.7 Cyfuno gyda nodau a blaenoriaethau cyffredinol S4C.

3.3 Er mwyn cyflawni hyn, bydd S4C yn gyson:

3.3.1 yn gwerthuso a gwella arferion caffael presennol i sicrhau gwerth gorau am arian a diwallu anghenion S4C;

3.3.2 adnabod cyfleoedd i ychwanegu gwerth i gytundebau/gwariant;

3.3.3 adolygu prosesau caffael yn barhaol er mwyn eu cryfhau a'u datblygu, gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chodau a deddfwriaeth berthnasol;

3.3.4 sicrhau bod enghreifftiau o arfer da yn cael eu hadnabod a'u defnyddio'n gyson ar draws y sefydliad;

3.3.5 unioni gweithgareddau caffael gyda strategaethau eraill;

3.3.6 sicrhau bod gweithgareddau caffael presennol ac ar gyfer y dyfodol yn cael eu cynllunio, monitro a'u hadolygu'n effeithiol;

3.3.7 adnabod cyfleoedd er mwyn gweithio gydag eraill, gan adolygu'r cwmpas yn gyson er mwyn macsimeiddio maint y prynu a sicrhau costau effeithlon;

3.3.8 ystyried sut y mae S4C yn cynnig budd i'r sector sy'n cyflenwi nwyddau a gwasanaethau, gan gynnal adolygiadau o'r gadwyn gyflenwi o bryd i'w gilydd;

3.3.9 sicrhau bod gweithdrefnau a chyfrifoldebau'n cael eu dogfennu a'u bod yn eglur i bob aelod o staff;

3.3.10 sicrhau bod hyfforddiant a chymorth yn cael ei ddarparu i bob aelod o staff sy'n ymwneud â phob lefel o gaffael;

3.3.11 gweithredu fframwaith rheoli risg effeithlon;

3.3.12 hyrwyddo amrywiaeth a cheisio osgoi gwastraff.

3.4 Bydd S4C yn mesur gweithgareddau caffael yn erbyn y Strategaeth hon, gan gynnwys cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg S4C.

4. Gweithrediad a Chyfrifoldebau

4.1 Mae gweithrediad y Strategaeth hon yn dibynnu ar fframwaith clir ar gyfer y swyddogaeth gaffael, a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'i gweithrediad.

4.2 Mae gan y Prif Weithredwr a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr gyfrifoldeb cyffredinol dros ddrafftio a gweithrediad y Strategaeth hon.

4.3 Mae'r Strategaeth a'r Polisïau cysylltiedig yn cael eu cymeradwyo a'u monitro gan Awdurdod S4C.

4.4 Bydd yr uned Gyllid yn cynnig cymorth gweithredol ac yn darparu data ac adroddiadau i fesur ei llwyddiant.

4.5 Bydd y Prif Weithredwr a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am:

- Ddrafftio a mabwysiadu'r Strategaeth Gaffael hon a sicrhau ei bod yn cefnogi polisïau, nodau ac amcanion S4C;
- Gynnal arolwg o ddulliau a fframwaith caffael gan sicrhau eu bod yn briodol i'r busnes, a'i fod yn gweithredu'n economaidd, effeithlon ac effeithiol;
- Fonitro'r broses o gaffael cytundebau sy'n ymwneud â gweithgareddau sylfaenol;
- Fonitro perfformiad gyda'r Strategaeth;
- Cymeradwyo atodlen ar gyfer y cyfrifoldebau ariannol a chytundebol dirprwyedig ar draws pob gweithgaredd;
- Rheoli unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â chaffael;
- Sicrhau bod y canlyniadau monitro yn hysbysu adolygu'r Strategaeth.

4.6 Bydd pob rheolwr yn gyfrifol am:

- Oruchwylio'r swyddogaeth gaffael yn eu cyfarwyddiaethau;
- Hysbysu ac adolygu'r atodlen ar gyfer cyfrifoldebau ariannol a chytundebol dirprwyedig ar draws yr holl weithgarwch yn eu cyfarwyddiaethau;

- Sicrhau bod aelodau o staff sy'n ymwneud â chaffael yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau er mwyn gallu ei gyfleu'n effeithiol;
- Pan fo hynny'n briodol, gwneud trefniadau rheoli prosiectau ac adnoddau ar gyfer gwasanaethau caffael penodol (e.e. tendrau);
- Hysbysu penderfyniadau mewn perthynas â gwerth am arian, rheoli risg a chytundebau mawr.

4.7 Dylai pob aelod o staff:

- Fod yn ymwybodol o a dilyn y canllawiau caffael sy'n berthnasol i lefel y risg sy'n gysylltiedig â'r nwyddau a'r gwasanaethau sy'n cael eu prynu ganddynt;
- Sicrhau bod gwerth gorau yn cael ei gyflawni bob amser;
- Sicrhau bod pob gwariant yn cael ei weinyddu yn gywir a bod cytundebau a dogfennaeth yn cynnwys yr holl alldaliadau;
- Cynnal perthynas gyda chyflenwyr a phartneriaid mewn modd sy'n cyd-fynd ag amcanion S4C.

4.8 Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid a'r uned gyllid yn:

- Gweithredu gweithdrefnau monitro a chyfrifo effeithlon ar gyfer gweithgarwch caffael ar draws holl gyfarwyddiaethau S4C;
- Monitro'r dulliau caffael a ddefnyddir;
- Sicrhau bod y data monitro hwn ar gael i hysbysu rheolaeth ac adolygiad y Strategaeth hon.

4.9 Bydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr yn adolygu'r Strategaeth hon yn flynyddol, a chyhoeddi Strategaeth newydd bob tair blynedd.